OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 1428

# Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 5 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 6) 2021

**Diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl erthygl 22 mewnosoder—

"**Galluedd plant**

**23.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys—

(a) i'r ddyletswydd i roi hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU i blentyn yn erthyglau 9(2), 10(2) ac 11(2);

(b) i'r ddyletswydd i roi hysbysiad yn dilyn cais gan blentyn o dan erthygl 12;

(c) i'r ddyletswydd i roi copi o'r cynllun datblygu unigol i blentyn o fewn 35 o ddiwrnodau ysgol yn erthygl 13(1);

(d) i'r pŵer i roi hysbysiad ADY i blentyn yn erthygl 14(2);

(e) i'r ddyletswydd i roi hysbysiad ADY yn dilyn cais gan blentyn o dan erthygl 14(3).

(2) Nid yw'r ddyletswydd neu'r pŵer yn gymwys os yw'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol priodol (yn ôl y digwydd) yn ystyried nad oes gan y plentyn alluedd i ddeall y mater o dan sylw.

(3) Pan fo paragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â'r ddyletswydd ym mharagraff (1)(a) neu (b), mae'r cyfeiriad cyntaf at blentyn yn erthygl 5 i'w ddarllen fel pe bai wedi ei hepgor.

(4) Pan fo paragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â'r ddyletswydd ym mharagraff (1)(a) neu (b), mae'r cyfeiriad cyntaf at blentyn yn erthygl 6 i'w ddarllen fel pe bai wedi ei hepgor."

(**1**) O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68).